



# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Gâr

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 677A2011



# Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Non Jenkins, Jeremy Evans a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae trefniadau cynllunio, cyflwyno a monitro'r Cyngor yn ysgogi gwelliant yn gyffredinol, ond mae angen iddo gryfhau ei werthuso ymhellach a symleiddio ei ddull o adrodd am berfformiad i'r cyhoedd 9

Mae cynlluniau a threfniadau i gyflawni gwelliant yn gwella, er bod rhai penderfyniadau aelodau wedi'i gwneud hi'n anodd rhoi rhai cynlluniau ar waith 10

Mae'r Cyngor yn gwella yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth 20

Mae arweinyddiaeth gref, aeddfed a rhagweithiol mewn gwasanaethau cymdeithasol i Blant ac Oedolion yn ysgogi gwelliant, ond bydd angen i aelodau wneud rhai penderfyniadau heriol. Mae cynnydd da'n cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2015 20

At ei gilydd, mae perfformiad mewn addysg yn gwella wrth i'r arweinyddiaeth a phrosesau yn y gwasanaeth barhau i gryfhau a chanolbwyntio ar y pethau iawn i helpu pobl i ddatblygu 22

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i helpu creu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol 23

Mae trefniadau ar waith ar gyfer casglu a monitro gwybodaeth am berfformiad, ac er bod ymdrechion wedi'u gwneud i wella gwerthuso ac adrodd am berfformiad i'r cyhoedd, mae angen eu cryfhau a'u symleiddio ymhellach 25

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 29

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gâr a Chyngor Sir Gâr 30

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Gâr 32

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Gâr 34

**Atodiad 5**
Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella 36

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 At ei gilydd, daeth yr Archwilydd i'r casgliad fod trefniadau cynllunio, cyflawni a monitro'r Cyngor yn ysgogi gwelliant, ond mae angen iddo gryfhau ei werthuso ymhellach a symleiddio ei ddull o adrodd am berfformiad i'r cyhoedd.

3 Canfuom fod cynlluniau a threfniadau i gyflawni gwelliant yn gwella, er bod rhai penderfyniadau aelodau wedi'i gwneud hi'n anodd rhoi rhai cynlluniau ar waith. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ers ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yn 2010;
- mae'r Cyngor wrthi'n adolygu rhai o'i drefniadau llywodraethu, er y bydd ei gynlluniau ar gyfer gwelliant pellach i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu tanseilio os nad yw aelodau'n gwneud rhai penderfyniadau heriol;
- mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er y bydd y raddfa newid angenrheidiol yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir;
- mae cynnydd yn cael ei wneud ym meysydd Adnoddau Dynol allweddol, cyflog cyfartal a strwythur cyflog diwygiedig, ond mae angen mwy o waith i gynllunio gweithlu'r Cyngor yn well;
- mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg i gyflawni a chefnogi trawsnewid gwasanaethau, ond gellid cyflawni gwelliannau pellach i gryfhau rhai trefniadau;
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydweithredu ac mae ganddo gynllun integredig unigol ar waith;
- mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu priodol â'r cyhoedd i lywio a datblygu polisïau; ac
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n paratoi i weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ym mis Ebrill 2012.

4 Canfuom hefyd fod y Cyngor yn gwella yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- Mae arweinyddiaeth gref, aeddfed a rhagweithiol mewn gwasanaethau cymdeithasol i Blant ac Oedolion yn ysgogi gwelliant, ond bydd angen i aelodau wneud rhai penderfyniadau heriol. Mae cynnydd da'n cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2015.
- At ei gilydd, mae perfformiad mewn addysg yn gwella wrth i'r arweinyddiaeth a phrosesau yn y gwasanaeth barhau i gryfhau a chanolbwyntio ar y pethau iawn i helpu pobl i ddatblygu.

- Mae gwelliannau wedi’u gwneud i helpu creu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol.

5 Yn olaf, mae’r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o’i berfformiad a’i drefniadau. Daethom i’r casgliad fod trefniadau ar waith ar gyfer casglu a monitro gwybodaeth am berfformiad, ac er bod ymdrechion wedi’u gwneud i wella gwerthuso ac adrodd am berfformiad i’r cyhoedd, mae angen eu cryfhau a’u symleiddio ymhellach.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor wneud y penderfyniadau angenrheidiol, a chadw atynt, i'w alluogi i gyflwyno cynlluniau cytûn er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd. |
| **C2** | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei adolygiad o'r cyfansoddiad yn hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da. |
| **C3** | Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r gweithredoedd ar gyfer gwella rydym wedi'u nodi yn ein hadroddiadau adborth ar astudiaethau thema. |
| **C4** | Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o werthuso ac adrodd ar ei berfformiad drwy:<br>• resymoli a symleiddio ei drefniadau adrodd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen i werthuso perfformiad ar gael yn hawdd, ei bod wedi'i chydgrynhoi'n well ac wedi'i chyflwyno'n gyson mewn ffordd sy'n diwallu anghenion dinasyddion lleol;<br>• cymharu ei berfformiad â darparwyr gwasanaeth eraill drwy archwilio cyfleoedd ar gyfer meincnodi er mwyn herio trefniadau cyflwyno presennol a dysgu oddi wrth arfer da mewn mannau eraill; a<br>• pharhau i ddatblygu mesurau llwyddiant wedi'u teilwra ac yn seiliedig ar ddeilliannau, er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae gweithredoedd y Cyngor yn ei wneud i fywydau dinasyddion lleol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae trefniadau cynllunio, cyflwyno a monitro’r Cyngor yn ysgogi gwelliant yn gyffredinol, ond mae angen iddo gryfhau ei werthuso ymhellach a symleiddio ei ddull o adrodd am berfformiad i’r cyhoedd

10 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau’r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae’r Cyngor wedi’u gosod iddo’i hun. Mae’r adroddiad yn adeiladu ar adborth ac adroddiadau cynharach a roddwyd i’r Cyngor a seiliwyd y casgliadau ar ein gwybodaeth gronnus a’n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith a wnaed eleni.

# Mae cynlluniau a threfniadau i gyflawni gwelliant yn gwella, er bod rhai penderfyniadau aelodau wedi'i gwneud hi'n anodd rhoi rhai cynlluniau ar waith

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ers ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yn 2010

11 Ym mis Awst 2010 daeth Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod trefniadau ac arweinyddiaeth gref y Cyngor yn ei roi mewn lle da i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol os yw'r Cyngor cyfan yn canolbwyntio ar gyflawni deilliannau gwell i bobl Sir Gâr gydag adnoddau cyfyngedig.

12 Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyntaf, a ddangosodd ei fod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r negeseuon a'r meysydd i'w gwella a amlinellwyd yn ei adroddiad Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol. Roedd yn nodi bod y pwysau wedi cynyddu ar wasanaeth cyhoeddus i gyd i wneud y defnydd gorau o'u holl adnodau. Bu cynghorwyr sir ar draws pob un o'r pleidiau gwleidyddol, a phartneriaid, yn gysylltiedig â nodi blaenoriaethau, opsiynau a syniadau ar gyfer arbedion. Roedd y Cyngor wedi dechrau datblygu'r ffordd y mae'n dangos fod ei weithredoedd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Sir Gâr a'r rheiny sy'n defnyddio'i wasanaethau. Roedd yn cydnabod yr angen am welliant pellach yn y ffordd y mae'n rheoli grantiau, pobl, TGCh, a thir ac eiddo.

13 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr i'r Cyngor yn rhoi diweddariad ar ei Asesiad Corfforaethol, gan gynnig sylwadau ar gynnydd a datblygiadau ers yr adroddiadau blaenorol a Chynllun Gwella newydd y Cyngor sy'n cynnwys ei Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan y Mesur a bod hyn yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Daethpwyd i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr asesiad corfforaethol rhagarweiniol yn 2010;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau rheoli pobl, ond mae ganddo waith i'w wneud eto mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu;
- mae dull da gan y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd; ac
- mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er y bydd y raddfa newid angenrheidiol yn anochel yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir.

14 Nodwyd tri o feysydd i'w gwella:

- dod â chynlluniau ymlaen i ehangu'r defnydd o ddata Adnoddau Dynol 'Insight' fel bod gan reolwyr atebol fynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen i nodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gweithlu;
- cryfhau cynlluniau busnes a rheolaeth ariannol drwy sicrhau bod y cysylltiadau rhwng amcanion strategol a gwella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn glir, a sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch presennol drwy adolygiadau pellach a mwy sylfaenol o gyllidebau; a
- datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad i fesur gwerth am arian a hyrwyddo meincnodi mewnol rhwng meysydd gwasanaeth allweddol er mwyn

darparu gwybodaeth briodol ar gyfer craffu a herio, a helpu nodi cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd pellach.

15 Mae crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r cynigion ar gyfer gwella ym mhob un o'n hadroddiadau i'w gael yn Atodiad 5.

16 Mae'r gweithgareddau hyn a gweithgareddau eraill wedi galluogi'r Cyngor i adeiladu capasiti drwy wneud gwell defnydd o adnoddau ac wedi helpu sicrhau arbedion effeithlonrwydd a ddaeth i gyfanswm o £10.8 miliwn y llynedd – sef 3.5 y cant o'i gyllideb.

17 Y llynedd daeth nifer o feysydd cyffredin i'w gwella ymhellach i'r amlwg o asesiadau'r Archwilydd Cyffredinol o welliant ar draws llywodraeth leol. Rhoddir crynodeb isod o ganfyddiadau ynglŷn â chynnydd y Cyngor yn rhai o'r meysydd hyn, ac mae mwy o fanylion wedi'u rhoi ar wahân i'r Cyngor, lle bo'n briodol.

## Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu rhai o'i drefniadau llywodraethu, er y bydd ei gynlluniau ar gyfer gwelliant pellach i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu tanseilio os nad yw aelodau'n gwneud rhai penderfyniadau heriol

18 Gwnaeth ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol 2010 gynigion i'r Cyngor ystyried lleihau nifer ei bwyllgorau craffu er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd ymhellach.

19 Cynigiodd y llythyr Diweddariad ar Asesiad Corfforaethol 2011 sylwadau ar y cynnydd sydd a wnaed, a nododd fod y Cyngor yn bwriadu adolygu ei gyfansoddiad cyn etholiadau llywodraeth leol 2012. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o nifer a chylch gwaith pwyllgorau craffu. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd ar y mater hwn.

20 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud rhai newidiadau i'w gyfansoddiad i adlewyrchu: gofynion Mesur Llywodraeth Leol newydd 2011; materion mewn pwyllgorau cynllunio; a'r niferoedd cynyddol o hysbysiadau o gynigion a dderbyniwyd. Cyflwynwyd y newidiadau hyn i'r Cyngor gan ei Grŵp Rheoli Busnes sy'n cynnwys yr arweinwyr a'r dirprwy arweinwyr o bob un o grwpiau gwleidyddol mwyaf y Cyngor.

21 Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod, wrth adolygu'r cyfansoddiad, yn annog arfer agored a thrylwyr gan swyddogion ac aelodau mewn trafodaethau, dadleuon, wrth graffu, cwestiynu, adrodd am benderfyniadau ac wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws ei bwyllgorau. Bydd y Cyngor yn ystyried nifer y pwyllgorau craffu a fydd yn barod i'w gweithredu ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012.

22 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 pa agweddau ar ei drefniadau arwain a llywodraethu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y mae'r Cyngor yn eu cyflawni'n dda, a beth sydd angen iddo wella neu ddatblygu:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Gwella arweinyddiaeth gyda newidiadau sylweddol mewn rhai meysydd o wasanaethau oedolion.
- Arweinyddiaeth effeithiol gref mewn gwasanaethau i blant.

- Ymgysylltu corfforaethol da yn yr agenda gwella.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/ei wella:

- Darparu'r gefnogaeth wleidyddol ar gyfer bwrw ymlaen â'r agenda moderneiddio mewn gwasanaethau i bobl hŷn, ac osgoi dibynnu ar y model preswyl.
- Datblygu amrediad o wasanaethau cost effeithiol ymhellach er mwyn hyrwyddo a chefnogi annibyniaeth.
- Cofnod o effaith pwyllgorau craffu ar berfformiad.'[1]

24 Gellir gweld manylion pellach am y cryfderau hyn a'r meysydd i'w datblygu yn Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC, sydd ar gael ar wefan yr AGGCC: www.wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw

## Mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er y bydd y raddfa newid angenrheidiol yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir

25 Adroddodd llythyr Diweddariad Asesiad Corfforaethol 2011 fod y Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er y bydd y raddfa newid angenrheidiol yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir. Mae'r Cyngor yn cyflawni i gryn raddau yn erbyn ei gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol, er bod achosion o orwario yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel y soniwyd uchod, mae enghreifftiau hefyd lle mae Aelodau wedi gwrthdroi penderfyniadau polisi blaenorol, ac mae hyn wedi cael effaith ariannol niweidiol. Mae'r newidiadau polisi hyn yn cynnwys darparu bagiau sbwriel du yn rhad ac am ddim i ddeiliaid tai a moderneiddio a rhesymoli cartrefi gofal preswyl.

26 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n mireinio'i gynllun ariannol tymor canolig. Fel yr adroddom y llynedd, bydd graddfa'r newid ariannol sy'n ofynnol yn heriol, a bydd yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir.


27 Cynigiodd ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol 2010 y dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli grantiau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi cyflawni prosiectau'n fwy cadarn, ac i liniaru risg adfachu cyllid.

28 Ers hynny mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da drwy Banel Grantiau ac ystod o hyfforddiant a chymorth arall i'r staff sy'n gysylltiedig â rheoli grantiau. Mae ein gwaith archwilio ar grantiau 2010-11 y Cyngor yn dal i fynd rhagddo, ac adroddir i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar ddechrau 2012.

29 Roedd ein hadroddiad cenedlaethol ar Reoli Grantiau yng Nghymru yn cynnwys y graff canlynol sy'n dangos cyfran ceisiadau am grant pob cyngor sydd wedi'u haddasu neu'u hamodi:

1 *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2010/2011 Cyngor Sir Gâr* – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 31 Hydref 2011.

Canran y ceisiadau am grant a gafodd eu haddasu neu eu hamodi ar gyfer 2009-10, yn ôl cynghorau Cymru




*Ffynhonnell: Adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli Grantiau yng Nghymru*

30 Mae hyn yn dangos bod 27 y cant o geisiadau am grant Sir Gâr wedi'u haddasu neu'u hamodi, sy'n gosod perfformiad y Cyngor yn agos at gyfartaledd Cymru.

31 Daeth ein gwaith archwilio ar reolaeth y Cyngor o fudd-dâl tai a budd-dâl y dreth gyngor i'r casgliad mai risg isel o fethiant mewn gwasanaethau sydd yn nhrefniadau'r Cyngor i weinyddu a darparu mynediad cwsmeriaid i'r budd-daliadau hyn, er bod rhywfaint o risg o fethiant mewn gwasanaethau yn ei drefniadau diogeledd ar gyfer y budd-daliadau hyn. Adroddom hefyd fod y Cyngor yn cyfrannu oddeutu £240,000 tuag at gost darparu'r gwasanaeth, ac mae hwn yn un o'r cyfraniadau isaf yng Nghymru. Mae cost gyfartalog fesul cais yr ymdrinia'r Cyngor â nhw gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru. Bwriadwn gynnal adolygiad pellach o wasanaeth budd-dâl tai'r Cyngor yn 2012, a byddwn hefyd yn dilyn y cynnydd mae wedi'i wneud mewn perthynas â'n gwaith ar dai a gordaliadau'r dreth gyngor.

32 Fe wnaeth ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o ba un a oedd wedi cyflawni ei Amcan Gwella ‘i weithio gyda’i bartneriaid er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau a sicrhau arbedion’ ganfod fod y Cyngor wedi bodloni naw o’i ddeg o dargedau yn 2010-11.
Er enghraifft:

- Mae’r Cyngor wedi datblygu’i reolaeth o asedau strategol ymhellach ac wedi mynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o reolaeth adeiladau.
- Mae mynediad i bobl anabl i 14 o adeiladau’r Cyngor wedi’i wella yn ystod 2010-11. Yr adeiladau hynny a oedd yn cael eu defnyddio fwyaf gan y cyhoedd a ddewiswyd ar gyfer eu gwella, er mwyn cynyddu’r cyfleoedd yn sgil y buddsoddiad gymaint â phosibl. Erbyn hyn mae mynediad hwylus i dros 70 y cant o adeiladau’r Cyngor sy’n agored i’r cyhoedd.
- Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor eto wedi cyflawni’i darged yn llawn i resymoli adeiladu er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i’w gwaredu i ariannu gwelliant cyfalaf.

33 Adroddodd yr AGGCC yn ei Adolygiad a’i Werthusiad Blynyddol diweddar o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11: ‘Mae gwasanaethau plant Sir Gâr wedi’u cydnabod fel rhai o’r gwasanaethau mwyaf cost effeithiol yng Nghymru. Bydd angen parhau i integreiddio a hyrwyddo cyllido ar y cyd yn wyneb galwadau cynyddol ac adnoddau sy’n lleihau er mwyn cynnal y sefyllfa hon.’

34 Fe wnaeth yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol roi ei Lythyr Archwilio Blynyddol i’r Cyngor ym mis Tachwedd 2011 yn cadarnhau fod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion adrodd yn ymwneud â’i berfformiad ariannol a’i ddefnydd o adnoddau, er y nodwyd rhai meysydd i’w gwella. Cynhwysir y Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 3.

## Mae cynnydd yn cael ei wneud ym meysydd Adnoddau Dynol allweddol, cyflog cyfartal a strwythur cyflog diwygiedig, ond mae angen mwy o waith i gynllunio’i weithlu yn well

35 Adroddom yn ein Llythyr Diweddariad o Asesiad Corfforaethol 2011 fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd ym meysydd Adnoddau Dynol allweddol. Ond bydd rheoli cysylltiadau cyflogeion yn her, ac mae diffyg gwybodaeth gynhwysfawr am gynllunio gweithlu corfforaethol yn cyfyngu ar allu’r Cyngor i nodi a mynd i’r afael â materion sgiliau a chapasiti. Cynigiodd y llythyr fod y Cyngor yn dod ymlaen â chynlluniau i ehangu’r defnydd o ddata Adnoddau Dynol sydd ar gael o’r system TG ‘Insight’, fel bod gan reolwyr atebol fynediad at y wybodaeth angenrheidiol i nodi a mynd i’r afael â materion gweithlu, fel maes i’w wella.

36 Ers hynny mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i’r afael â materion cyflog cyfartal. Nid yw’r Cyngor wedi cwblhau ei drafodaethau eto i gyflawni cytundeb tâl statws sengl ar gyfer cyflog cyfartal, ond mae’n rhagweld y bydd yn gwneud hynny tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn gwerthuso swyddi, ac mae'n rhagweld dod i gytundeb gyda'r staff yn ystod y chwe mis nesaf. Dylai datrys gwerthuso swyddi a statws sengl rhoi mwy o sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'i gostau cyflogau yn y dyfodol wrth iddo barhau i fireinio'r cynllun ariannol tymor canolig. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor hefyd yn gobeithio gwneud arbedion effeithlonrwydd trwy gynllun ymddiswyddo gwirfoddol.

37 Fe wnaeth AGGCC adrodd hefyd yn ei Adolygiad ac Arfarniad Blynyddol diweddar o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2010-11 fod y Cyngor yn gwneud rhai pethau'n dda, a bod angen iddo ddatblygu neu wella materion eraill yn ymwneud â'i adnoddau dynol a'i weithlu. Mae'r rhain yn cynnwys:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Recriwtio gofalwyr maeth.
- Recriwtio a sefydlu gweithwyr cymdeithasol.
- Darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer anghenion a nodwyd.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/ei wella:

- Gwelliant yn y cymorth adnoddau dynol corfforaethol trwy ddatblygu arfer a phrosesau.
- Gweithio i leihau nifer y penodiadau rheolwyr dros dro ar draws gwasanaethau gofal mewnol.'

## Mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg i gyflawni a chefnogi trawsnewid gwasanaethau, ond gellid cyflawni gwelliannau pellach i gryfhau rhai trefniadau

40 Daeth ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg, sy'n hanfodol ar gyfer trawsnewid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, gwella deilliannau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i'r casgliadau canlynol:

- mae trefniadau'r cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gynorthwyo gwelliant parhaus os yw'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau rheoli a chyflwyno TGCh ac yn cysoni cynlluniau a gweithgarwch TGCh â blaenoriaethau corfforaethol a chynlluniau gwella;
- mae gwendidau yn y trefniadau presennol y mae angen mynd i'r afael â nhw: nid yw'r Strategaeth TGCh bresennol yn gyson â'r Amcanion Gwella Corfforaethol; mae trefniadau llywodraethu'n cyfateb i anghenion gwasanaeth yn hytrach na chynlluniau gwella corfforaethol a dadansoddiad o gost datblygu; ac nid yw'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cael eu hasesu a'u cymhwyso'n gyson ac yn gadarn; ac
- mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg i gyflwyno a chefnogi trawsnewid gwasanaethau, ond gellid gwneud gwelliant pellach trwy drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau cyson a chadarn, a defnydd gwell o wybodaeth am berfformiad.

41 Mae'r Cyngor newydd benodi Rheolwr TGCh newydd, ac mae hon yn swydd ar y cyd a rennir gyda Heddlu Dyfed Powys. Bydd y rheolwr newydd yn gwneud gwaith ailstrwythuro sylfaenol i wasanaethau TG y Cyngor a'r Heddlu, gan helpu i leihau costau a gwella perfformiad.

42 Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o ddull y Cyngor o Reoli Gwybodaeth. Oherwydd y pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus mae angen cynyddu a manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth a ddelir er mwyn cyflwyno a chynllunio ar gyfer gwasanaethau o safon yn effeithiol. Byddwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau yn ein hadroddiad nesaf.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydweithredu ac mae ganddo gynllun integredig unigol ar waith

43 Nododd ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yn 2010 fod y Cyngor yn dangos cryfderau arbennig yn arwain a chydweithredu ar wella. Mae'n gwbl ymrwymedig i gydweithredu â phartneriaid allanol ac mae bob amser yn edrych am gyfleoedd i weithio gydag eraill yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gan ddangos nifer o nodweddion cadarnhaol gweithio ar y cyd.

44 Ers hynny mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, wedi lansio Cynllun Integredig Unigol sy'n rhesymoli'r holl gynlluniau statudol yn un cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithredu'r Cynllun Integredig Unigol ac mae'n dal partneriaethau allweddol eraill i gyfrif am gynnydd o ran cyflawni gwelliannau i ddinasyddion Sir Gâr, fel a amlinellir yn erbyn blaenoriaethau allweddol y Cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi pennu nifer o ddangosyddion sy'n mesur deilliannau ei ymdrechion ar boblogaeth y sir ac mae wedi dechrau defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer monitro cynnydd. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd yn dechrau rhesymoli nifer y partneriaethau yn Sir Gâr.

45 Prif Weithredwr y Cyngor yw arweinydd rhanbarthol y Canolbarth a Gorllewin Cymru ar Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer cydweithredu ac i hybu cyflymder gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

46 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r ymagwedd bartneriaeth a fabwysiadwyd gan Sir Gâr at gytuno a gweithredu Polisi Mynediad i Dai Cymdeithasol y Cyngor gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y sir, a byddwn yn adrodd y canfyddiadau yn ein Diweddariad o'r Asesiad Corfforaethol nesaf.

47 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo ei ddatblygu neu ei wella mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth, fel a ganlyn:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Cyflawni trefniadau partneriaeth ffurfiol (adran 33) i gefnogi gweithio ar y cyd mewn gwasanaethau oedolion.
- Datblygu a gwella gwasanaethau sy'n dangos gweithio integredig mewn partneriaeth.

- Gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu buddion i'r eithaf i blant a phobl ifanc.
- Mynd ati'n barhaus i wella trefniadau mynediad integredig drwy Llinell Gofal (Careline+).
- Gwelliant cadarnhaol iawn i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Bwrw ymlaen ag integreiddio asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig i bobl hŷn.
- Cynyddu amrediad y gwasanaethau i bobl hŷn sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo annibyniaeth.
- Parhau i ddadansoddi a datblygu rôl y bwrdd diogelu oedolion.
- Bwrw ymlaen â datblygu'r strwythur a'r broses ddiogelu.
- Gwelliant parhaus o ran cadw pobl o bob oed yn y gymuned.
- Lleihau nifer y bobl hŷn sy'n cael cymorth mewn lleoliadau gofal preswyl.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/ei wella:

- Protocol rhwng gwasanaethau plant ac oedolion i hyrwyddo nodi gofalwyr ifanc, a'u hanghenion.
- Trefniadau atebolrwydd effeithiol ar gyfer rheolaeth llinell staff ar draws gwasanaeth mabwysiadu gorllewin Cymru.
- Gweithredu blaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor ar gyfer gwelliant mewn arfer diogelu.
- Gwella cysylltiadau comisiynu a rheoli gofal er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth cyn lleoli yn cael ei rhannu.'

## Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu priodol â'r cyhoedd i lywio a datblygu polisïau

50 Adroddodd ein Llythyr Diweddariad ar Asesiad Corfforaethol 2011 fod y Cyngor yn gwneud defnydd da o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu priodol â'r cyhoedd er mwyn llywio a datblygu polisïau ac amcanion. Daeth ein hadolygiad o hyd i dystiolaeth o arfer da yn null y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac amlinellir hyn isod:

**Arfer Da**

Mae'r Cyngor yn ceisio lleihau ei ôl-troed carbon ei hun, ac mae hefyd yn annog trigolion i wneud yr un peth drwy ymgysylltu â chymunedau er mwyn cefnogi prosiectau a mentrau lleol i leihau carbon. Sefydlwyd prosiect peilot o'r enw 'Byw Sir Gâr' gan y Cyngor a'i bartneriaid yn 2009, ac yn sgil ei lwyddiant, lansiwyd Sialens Gymunedol Sir Gâr, gan Dywysog Cymru fel rhan o Ŵyl Cam Cyntaf Cymru yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae'r Sialens yn agored i unrhyw unigolion a grwpiau yn y sir, a bydd y rhain yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ddatblygu eu hatebion lleol ac arloesol eu hunain i'r heriau a wynebwn yn y dyfodol.

51 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 fod y Cyngor yn gwella perfformiad wrth ddatrys cwynion mewn gwasanaethau oedolion ac yn hwyluso cyfleoedd i gyfranogi i ddefnyddwyr gwasanaeth, ond mae angen iddo ddatblygu neu wella:

- ‘tystiolaeth fod barnau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi a bod ganddynt gopïau o asesiadau a chynlluniau gofal;
- tystiolaeth fod barnau gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr maeth, yn cael effaith ar ddatblygu gwasanaethau; a
- thystiolaeth o’r modd y mae barnau defnyddwyr gwasanaeth yn dylanwadu ar gynllunio gwasanaethau.’

52 Noda AGGCC hefyd: ‘Mae’r Cyngor yn adrodd y bu cynnydd mewn ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth, a gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy archwilio. Datblygwyd y strategaeth cymorth teulu y llynedd gyda lefel uchel o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth. Mae’r Cyngor yn adrodd ei fod wedi datblygu nifer o fentrau i hwyluso cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr lunio gwasanaethau. Mae pobl ifanc wedi cyfranogi yn y broses gyfweld ar gyfer swyddi mewn gwasanaethau plant, ac mae nifer o ddigwyddiadau wedi’u trefnu i gael barnau pobl ifanc. Mae strategaeth gyfranogi ar waith ac mae rhaglen gyfranogi tair blynedd wrthi’n cael ei rhoi ar waith. At ei gilydd mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da yn y maes hwn, a dylai fod mewn sefyllfa dda i ddangos tystiolaeth o’r modd y mae barnau defnyddwyr gwasanaeth wedi dylanwadu ar gyflwyno gwasanaethau.’

53 Mae Crynodeb Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi dadansoddiad o’r holl gwynion a dderbyniwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt gan ei swyddfa mewn perthynas â’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2010-11. Yn ei lythyr i’r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, noda’r Ombwdsmon, er y bu cynnydd yn nifer y cwynion ynglŷn â’r Cyngor a dderbyniwyd gan ei swyddfa, bu gostyngiad mawr yn nifer y cwynion a gafodd eu dwyn yn eu blaen i ymchwilio iddynt ganddo. Fodd bynnag, mae’r ddau ffigur uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Roedd yr ystadegau a ddarparodd yn dangos bod Cynllunio a Rheoli Adeiladu wedi parhau fel y testun cwyno unigol mwyaf, gyda Tai yn ei ddilyn. Roedd y ddau faes cwyno bron yn ddwbl cyfartaledd yr awdurdod lleol. Yn unol ag ystadegau ar gyfer 2009-10, dosbarthwyd y nifer uchaf o ddeilliannau cwynion yn ymwneud â’r Cyngor fel rhai ‘cynamserol’ neu ‘heb fod yn teilyngu ymchwiliad’. Dywedodd yr Ombwdsmon ei fod yn falch o nodi nad oedd nifer y cwynion a gadarnhawyd yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, ac yn falch hefyd o nodi perfformiad da Sir Gâr yn ymateb i geisiadau am wybodaeth o’i swyddfa.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n paratoi i weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ym mis Ebrill 2012

54 Fe wnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ganmol y Cyngor am ei allu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr a chyson drwy ei wasanaeth 'Galw Sir Gâr'. Hefyd, roedd y Bwrdd yn croesawu gallu'r Cyngor i ddarparu data ar sgiliau ieithyddol ei weithlu. Canfu ymarferiad arolygu a gynhaliwyd ar wybodaeth a dogfennaeth etholiadol fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar ei wefan, ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto, ac mae'n parhau'n fater blaenoriaeth.

55 Mae'r Cyngor wedi datgan ei fod yn ymrwymedig i'w gyfrifoldebau cyfreithiol, er mwyn sicrhau cymdeithas deg ac amrywiol ar draws y sir. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i amrywiaeth o bobl, ac mae am sicrhau bod pawb yn cael y gwasanaethau gorau posibl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno ac yn disodli deddfwriaeth flaenorol ac yn symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth mwyafrif y Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010, ac yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Ymgynghorir â'r cyhoedd a phartneriaid allweddol ynglŷn â'r cynllun drafft, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei baratoi i'w roi ar waith o fis Ebrill 2012 ymlaen.

# Mae'r Cyngor yn gwella yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth

56 Rydym wedi cynnig sylwadau uchod ar amcan gwella'r Cyngor 'i weithio gyda'i bartneriaid er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau a sicrhau arbedion'. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn gwella'i wasanaethau. Mae'n adlewyrchu barn AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau oedolion a phlant, ac Estyn mewn perthynas ag addysg, ac mae'n amlinellu ein canfyddiadau ein hunain ynglŷn â pherfformiad y Cyngor yn erbyn y chwe amcan gwella arall y pennodd y Cyngor iddo'i hun i'w cyflawni yn ystod 2010-11.

## Mae arweinyddiaeth gref, aeddfed a rhagweithiol mewn gwasanaethau cymdeithasol i Blant ac Oedolion yn ysgogi gwelliant, ond bydd angen i aelodau wneud rhai penderfyniadau heriol. Mae cynnydd da'n cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2015

57 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar y gwaith a'r gwerthusiadau gan AGGCC yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cynorthwyo pobl mewn angen. Crynhoir gwerthusiadau AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddaraf o Berfformiad 2010-11 fel a amlinellir mewn llythyr at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gâr ym mis Hydref 2011. Rhoddir crynodeb o'r prif gasgliadau o werthusiad AGGCC yn y paragraffau canlynol.

58 'Mewn gwasanaethau oedolion mae tystiolaeth o arweinyddiaeth a chyfeiriad gwell. Mae tystiolaeth bod trefniadau mynediad yn gwella. Mae'r pwynt mynediad unigol, Llinell Gofal, yn parhau i gynnig sylfaen dda i'r Cyngor ddatblygu ymhellach arni. Bu gwelliant sylweddol o ran lleihau oedi wrth ryddhau o'r ysbyty i bobl hŷn. Yn hanesyddol mae hyn wedi bod yn anodd mynd i'r afael ag ef, a chyflawnwyd y gwelliant diweddar drwy weithio'n agos â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae wedi gofyn am ddatblygu ystod o wasanaethau newydd sy'n cefnogi ac yn hybu annibyniaeth. Cynhaliwyd dadansoddiad cadarn o systemau er mwyn deall a delio ag achosion o oedi ac i sicrhau effeithlonrwydd gwell mewn prosesau. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl hŷn sy'n mynd i mewn i ofal preswyl yn faes arall sydd wedi'i wella. Bellach mae'r Cyngor yn wynebu'r her o barhau i gyflawni a gwella'r perfformiad hwn ymhellach.

59 Mae gwasanaethau anabledd dysgu a gwasanaethau diogelu yn gwella hefyd. Cafwyd ymateb cadarnhaol i arolygiad AGGCC yn y ddau faes hwn, ac mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Mae cynnydd wedi'i wneud, yn enwedig mewn arfer diogelu lle mae'r tîm sydd newydd ei sefydlu yn dangos potensial cryf, ac mae gwelliannau wedi'u gwneud yn barod. Mae moderneiddio gwasanaethau anabledd dysgu yn orchwyl tymor hwy ac mae'r Cyngor yn dechrau dangos rhywfaint o gynnydd erbyn hyn. Mae'n bwysig ei fod yn cynnal momentwm, am mai araf iawn y mae newidiadau wedi'u cyflawni yn hanesyddol. Un o'r blaenoriaethau ar draws yr holl wasanaethau i oedolion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yw gwella amseroldeb asesu ac adolygu cynlluniau gofal. Bydd y Cyngor eisiau sicrhau bod y cynlluniau a'r adnoddau angenrheidiol ganddo yn eu lle i fynd i'r afael a'r oedi hwn yn 2011-12.

60 Mae gwasanaethau plant wedi parhau i berfformio'n dda ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Mae tystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol a chadarn yn dilyn penodi cyfarwyddwr corfforaethol newydd ar gyfer plant, a thîm rheoli sefydledig sy'n canolbwyntio ar ansawdd yn ogystal â rheoli perfformiad. Mae dull rhagweithiol ar waith i ddadansoddi tueddiadau a rheoli unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno gwasanaethau'n effeithlon. Mae hyn wedi cynorthwyo'r Cyngor i weithredu'n effeithiol i fynd i'r afael â gofynion cynyddol ar adnoddau. O ystyried y cynnydd yn nifer y cyfeiriadau, achosion diogelu plant a chynnydd yn y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal, bydd angen parhau i roi ffocws ar yr ymagwedd hon yn y dyfodol.'

61 Yn ei Werthusiad Blynyddol, mae AGGCC yn amlinellu meysydd cryfder allweddol a meysydd i'w datblygu neu'u gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor, ac mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. I weld copi llawn o'r rhain, ewch i Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC ar gyfer 2010-11 yn http://wales.gov.uk/docs/cssiw/publications/LA_evaluation1011/111028carmarthency.pdf

62 Mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o asesiad y Cyngor o ba un a wnaeth gyflawni ei Amcanion Gwella i gefnogi pobl mewn angen, wedi canfod y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei amcan gwella ansawdd tai ar gyfer 2010-11. Roedd perfformiad gwirioneddol yn well na'r targed a osodwyd gan y Cyngor, a bydd y cynnydd sydd wedi'i wneud yn helpu dod â'i holl stoc i fyny at Safon Tai Sir Gâr erbyn terfyn amser estynedig Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru yn 2015. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor gydnabyddiaeth genedlaethol am ei weithgareddau'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys gwobr Tai ac Adfywio Gorau gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Mynegodd 87 y cant o denantiaid fodlonrwydd â'r gwelliannau i'w cartrefi.
- Cyflawnodd y Cyngor yn erbyn deg o'i un ar ddeg o dargedau yn 2010-11 ar gyfer diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys: parhau i ddatblygu ei weithlu a darparu hyfforddiant i ymarferwyr; a chadw lefel swyddi gweigion yn unol â'i darged o 10 y cant.
- Cyflawnodd y Cyngor 16 o dargedau ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 i gefnogi pobl hŷn i chwarae eu rhan ym mywyd eu cymunedau a'u cynorthwyo i fyw bywydau annibynnol pa bryd bynnag y bo modd yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad yn y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed a hŷn o gyfartaledd misol o 22 yn 2009-10 i 12 yn 2010-11. Amcangyfrifa'r Cyngor ei fod wedi arbed cyfanswm o 12,187 o oriau cyflwyno gwasanaethau, drwy ddefnyddio'r gwasanaeth galluogi, yn ystod 2010-11. Ond er bod nifer y cleientiaid sy'n oedolion y darparwyd taliad uniongyrchol iddynt wedi cynyddu, nid yw'n cynyddu mor gyflym ag yr oedd y Cyngor wedi cynllunio, ac mae ganddo gynlluniau ar droed i fynd i'r afael â hyn.

## At ei gilydd, mae perfformiad mewn addysg yn gwella wrth i'r arweinyddiaeth a phrosesau yn y gwasanaeth barhau i gryfhau a chanolbwyntio ar y pethau iawn i helpu pobl i ddatblygu

63 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar y gwaith a'r arolygiadau yr ymgymerodd Estyn â hwy yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu. Ni wnaeth Estyn gynnal arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; fodd bynnag, rhoddodd Estyn grynodeb i'r Archwilydd Cyffredinol am berfformiad y Cyngor, ac fe'i amlinellir yn y paragraffau canlynol.

64 'Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yn Sir Gâr uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ac ychydig islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd o ran y mesurau hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Cyfartalog neu islaw cyfartalog yw perfformiad o ran dangosyddion cyhoeddedig eraill.

65 Yn 2010, fe wnaeth Sir Gâr ragori ar ddau o dri o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd hwn yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol, ond nid gystal ag yn 2008 pan ragorodd Sir Gâr ar bob un o'r meincnodau.

66 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn is na'r cyfartaledd pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol. Fe wnaeth nifer y gwaharddiadau o ysgolion wella'n sylweddol yn 2010, ac mae'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.'

67 Canfu ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o ba un a lwyddodd i gyflawni ei Amcan Gwella 'i foderneiddio safon adeiladau ysgol fel eu bod yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif, a bod y llety a'r cyfleusterau yn addas i'r gymuned a wasanaethir ganddynt' fod y Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau yn 2010-11, gan gynnwys:

- Cyflwyno fframwaith Cefnogi a Herio diwygiedig.
- Cyflwyno cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr ifanc (14-19) yn cael o leiaf 30 o ddewisiadau trwy Rwydwaith 14-19 Sir Gâr.
- Ymgymryd â chwe adolygiad strategol yn ystod 2010-11 ar feysydd a nodwyd ar gyfer ad-drefnu posibl. Nod yr adolygiadau hyn yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhwydwaith ysgolion a chael gwared ar nifer sylweddol o leoedd dros ben i ddisgyblion o'r system.
- Sefydlu system i bobl ifanc yn Sir Gâr allu elwa o gyfleoedd gwaith ieuenctid
- Annog cyflawniad oedolion sy'n dilyn Cyrsiau Addysg yn y Gymuned. Ar hyn o bryd mae 525 o ddysgwyr sy'n oedolion, ac o'r rheiny mae 89 y cant yn dilyn cyrsiau achrededig. Mae cymhareb 2010-11 o gyrsiau achrededig i gyrsiau anachrededig wedi gwella i 63:19, o gymharu â 73:44 yn 2009-10.

68 Llwyddwyd i fodloni'r holl dargedau eraill yn ymwneud â chyrhaeddiad a phresenoldeb, a adroddwyd amdanynt ym mharagraffau cryno Estyn uchod.

## Mae gwelliannau wedi'u gwneud i helpu creu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol

69 Fe wnaeth ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o ba un a oedd wedi cyflawni ei Amcanion Gwella i ddarparu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw ynddo ganfod fod y Cyngor wedi bodloni ei dargedau yn 2010-11 ar gyfer cyflawni sir carbon niwtral a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â'r disgwyl i wella effeithlonrwydd ynni yn ei adeiladau cyhoeddus. Cyflawnodd y Cyngor ei darged i leihau allyriadau carbon deuocsid yn ei adeiladau cyhoeddus ac mewn tai cyngor. Mae hefyd wedi gwella'r ynni mae'n ei ddefnyddio i redeg adeiladau'r Cyngor.

70 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i helpu deiliaid tai ddeall sut gallant gwtogi ar ddefnyddio ynni ac arbed arian. Mae wedi canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol i'w gwella, gan gynnwys pobl hŷn a theuluoedd, gan fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau prisiau tanwydd uchel. Mae hefyd wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar y rhannau o'r sir sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan gostau tanwydd uchel.

71 Mae'r Cyngor hefyd wedi bodloni pob un o'i dargedau 2010-11 am ymateb yn gadarn i'r hinsawdd economaidd bresennol drwy gefnogi busnes a sicrhau bod y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn cael eu hawliau cywir. Yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11 fe wnaeth y Cyngor helpu cwmnïau yn y sir drwy ddarparu cymorth ariannol gwerth £667,069, yn bennaf drwy'r Cynllun Cronfa Fuddsoddi Leol. Cefnogodd y Cyngor 95 o fusnesau lleol newydd a phresennol drwy'r cynllun hwn. Mae hefyd wedi cynnig helpu drwy'r Cynllun Benthyciadau newydd, Benthyciadau Pobl Ifanc a Benthyciadau Caledi. Dywed y Cyngor ei fod yn hyderus y bydd yn bodloni ei darged i gynnig dros £1.9 miliwn o gymorth ariannol dros gyfnod o dair blynedd.

72 Mae'r Cyngor wedi talu 94 y cant o'i anfonebau o fewn 30 diwrnod. Fodd bynnag, ni aeth y Cyngor ati i greu Safle Cyflogaeth Strategol newydd 30 erw/£15 miliwn yn Cross Hands yn ystod 2010-11, fel yr oedd wedi bwriadu gwneud. Cynlluniwyd y prosiect hwn i alluogi creu rhyw 1,000 o swyddi newydd yn yr ardal. Roedd angen cyllid ychwanegol ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect, a dywed iddo gael ei oedi pan roddwyd y prosiect ar restr gadw Llywodraeth Cymru, ac ni fu modd cwblhau'r prosiect yn 2010-11 felly. Ar ôl cyflwyno cynllun busnes newydd, dyfarnwyd pecyn cyllid £9 miliwn i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Bydd y datblygiad yn cael ei roi ar waith a'i reoli gan y Cyngor, sy'n buddsoddi £4 miliwn yn y cynllun. Gall y Cyngor ymgymryd â'r prosiect yn 2011-12 nawr.

73 Mae proffil cyhoeddus uchel gan y gwasanaeth Cynllunio o hyd, ac fel y nodwyd yn gynharach, Cynllunio a Rheoli Adeiladu yw'r testun cwyno unigol mwyaf, gyda Thai yn ei ddilyn. Derbyniodd y ddau faes cwyno bron i ddwywaith cyfartaledd yr awdurdod lleol, ond dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r cwynion fel rhai 'cynamserol' neu 'heb fod yn teilyngu ymchwiliad', ac nid oedd nifer yr adroddiadau a gadarnhawyd yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Fe wnaeth nifer y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn wyth wythnos ddirywio o 79 y cant i 74 y cant dros y cyfnod Ebrill i Fehefin 2010 i Ebrill i Fehefin 2011. Fodd bynnag, mae Sir Gâr yn un o dri chyngor yn unig yng Nghymru sydd â chymeradwyaeth gyfredol gan CADW i benderfynu caniatadau adeiladau rhestredig gradd dau. Byddwn yn dilyn cynnydd y gwasanaeth cynllunio yn 2012.

## Mae trefniadau ar waith ar gyfer casglu a monitro gwybodaeth am berfformiad, ac er bod ymdrechion wedi'u gwneud i wella gwerthuso ac adrodd am berfformiad i'r cyhoedd, mae angen eu cryfhau a'u symleiddio ymhellach

74 Yn awdurdodau lleol Cymru, mae hunanasesiadau corfforaethol a hunanasesiadau gwasanaethau yn elfennau allweddol mewn nifer o fframweithiau gwelliant a sicrwydd, fel Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer Addysg, Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor mewn gwasanaethau cymdeithasol, a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol awdurdodau lleol. Mae hunanasesiadau eraill yn ofynnol i baratoi ar gyfer archwiliadau ac arolygiadau rheoleiddiol, ac ar gais Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

75 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor dda yw hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun. Mae hunanwerthuso cywir a chadarn yn hollbwysig i allu'r Cyngor i:

- adnabod y cynnydd mae'n ei wneud;
- cymryd camau unioni pan na fydd perfformiad yn cyrraedd lefelau disgwyliedig a phan na fydd deilliannau dymunol yn cael eu cyflawni; ac
- adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys a gwerthusol.

76 Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni hunanwerthusiad a sicrwydd cadarn. Daeth ein harchwiliad o ddangosyddion perfformiad y Cyngor i'r casgliad bod systemau cadarn gan y Cyngor ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am berfformiad, ac ar sail ein profion o samplau, mae'r data a adroddir yn gywir. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn casglu, yn defnyddio ac yn adrodd y data mwyaf priodol er mwyn ei helpu i: wella, herio a gwerthuso a yw wedi gwella; ac adrodd i aelodau a'r cyhoedd.

77 Mae asesiad y Cyngor o'r cynnydd mae wedi'i wneud yn 2010-11 wedi'i amlinellu yn ei Adroddiad Blynyddol, ynghyd â nifer o atodiadau manwl a dogfen Grynodeb ar wahân. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu gwybodaeth helaeth, gynhwysfawr a manwl am berfformiad, ac am beth mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf – ar ei ben ei hun ac wrth weithio gydag eraill – i gefnogi gwelliant.

78 Yn ogystal â disgrifio camau a gwblhawyd, mae'r adroddiad yn cynnwys ystod eang o wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth arall. Caiff perfformiad presennol ei gymharu â pherfformiad blaenorol a thargedau'r Cyngor, yn ogystal â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru. Gwneir ymgais wirioneddol i asesu effaith gweithredoedd y Cyngor o dan y pennawd 'oes rhywun wedi elwa?' er bod y Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ddatblygu mesurau effaith teilwredig.

79 Mae adroddiadau'n deg ac yn gytbwys yn gyffredinol. Er eu bod yn canolbwyntio ar gyflawniadau cadarnhaol yn bennaf, mae'r adroddiad yn tynnu sylw hefyd at feysydd lle mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Gellid hefyd gwneud mwy o ddefnydd o feincnodi ymhellach na'r data dangosyddion perfformiad sydd ar gael yn hawdd. Mae'r Cyngor wedi cynnwys holiadur adborth hefyd, sy'n gofyn am sylwadau gan y cyhoedd ar gynnwys a chyflwyniad yr adroddiad.

80 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrechion i wella'i ddull o werthuso ac adrodd ar berfformiad i'r cyhoedd, ond mae angen iddo wella'i adroddiad blynyddol i'r cyhoedd mwy eto er mwyn ei wneud yn hunanwerthusiad mwy cydlynus a chadarn o ba mor dda mae'n meddwl ei fod yn gwneud. Mae'r wybodaeth yn fanwl ac yn helaeth iawn, ond mae'n wybodaeth dameidiog ar draws nifer o rannau gwahanol sy'n ymwneud â'r adroddiad, gan ei wneud yn llai tryloyw nag a fwriadwyd.

81 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymgais wirioneddol i gynhyrchu crynodeb sy'n haws ei ddeall i'r cyhoedd na'r adroddiad llawn. Fodd bynnag, mae helaethrwydd ac amrywiaeth y wybodaeth yn eithaf cymhleth o hyd. Mae lle i'r Cyngor ystyried ymhellach pa wybodaeth y gellir ei chyflwyno orau i'r cyhoedd, ac ar ba ffurf, er mwyn eu galluogi i farnu pa mor dda mae'n perfformio, ac i'w ddal i gyfrif.

82 Roedd cyhoeddusrwydd i'r adroddiad a'r crynodeb yn eithaf cyfyngedig hefyd, ac nid oes cyfeiriad clir at y dogfennau ar wefan y Cyngor.

83 Mae'r Cyngor wedi parhau i wella'i drefniadau datblygedig ar gyfer rheoli perfformiad, cynllunio, cyflawni a monitro cynnydd. Mae llawer iawn o wybodaeth fanwl am berfformiad yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan reolwyr ac aelodau. Erbyn hyn mae pwyllgorau craffu yn cael adroddiadau manylach bob hanner blwyddyn ar yr holl ddangosyddion perfformiad a'r camau allweddol yn y cynllun gwella, er nad ydym wedi mynd ati eto i asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn. Sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen craffu i gynorthwyo â datblygu polisi a gwella gwasanaethau.

84 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu fod y Cyngor wedi cyflawni pob un o'i ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru; yn benodol o ran:

- gwneud yr adroddiad yn haws dod o hyd iddo (arweiniad Llywodraeth Cymru Rhan 1 – Para 6.9);
- gwneud yr adroddiad yn haws ei ddarllen (arweiniad Llywodraeth Cymru Rhan 1 – Para 6.9); a
- dweud yn gliriach pam y gwnaed cymariaethau neu pam na waned cymariaethau (arweiniad Llywodraeth Cymru Rhan 1 – Para 4.2 i 4.4).

85 Rhoddodd adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol adolygiad trylwyr ac onest o ba un a oedd trefniadau ar waith ac yn gweithredu'n unol â'r bwriad.

86 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 adroddodd AGGCC am nifer o gryfderau a meysydd i'w gwella neu'u datblygu mewn perthynas â'r modd y mae'r Cyngor yn mynd ati i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar ei berfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Rheoli perfformiad sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau plant.
- Nodi a dadansoddi materion sy'n effeithio ar berfformiad (mewn gwasanaethau plant).

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei wneud i ddatblygu/gwella:

- Sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd ar draws gwasanaethau oedolion.'

89 Mae'n nodi hefyd y 'cynhaliwyd dadansoddiad cadarn o systemau er mwyn deall a delio ag achosion o oedi ac i sicrhau effeithlonrwydd gwell mewn prosesau. Mae gwasanaethau plant yn dal i weithredu fframwaith rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd gyda system sefydledig o archwilio a gwerthuso'.

90 Mae Gwerthusiad Blynyddol diweddar AGGCC yn adrodd hefyd ar sut mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu camau ac argymhellion o adolygiadau ac arolygiadau blaenorol. Mae'n adrodd bod 'arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu gan AGGCC ym mis Hydref 2010 wedi nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn y gwelliannau a nodwyd, ond nid oedd newidiadau strwythurol a phenodiadau staff wedi'u cwblhau bryd hynny. Ers hynny mae camau rhagorol wedi'u cwblhau, ac erbyn hyn mae'r Cyngor yn gallu dangos gwelliant parhaus yn y gwasanaeth hwn'.

91 Fe wnaeth y Cyngor sicrhau'r Grant Cytundeb Canlyniadau llawn a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru am fodloni'r targedau deilliannau a bennwyd yn y Cytundeb.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gâr a Chyngor Sir Gâr

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Gâr yn gwario oddeutu £412 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £2,300 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor wario £73.5 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Sir Gâr oedd £1,144.76 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.74 y cant i £1,187.59 y flwyddyn ar gyfer 2011-12; mae 75.7 y cant o'r anheddau yn Sir Gâr ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 29 Annibynnol; 11 Llafur: Clymblaid
- 30 Plaid Cymru
- 2 Rhoi Pobl yn Gyntaf
- Un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (Annibynnol)
- Un amhleidiol

Prif Weithredwr Sir Gâr yw Mark James.

Fe'i cynorthwyir gan:

- Addysg a Gwasanaethau Plant: Robert Sully
- Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Bruce McLernon
- Gwasanaethau Technegol: Richard Workman
- Adfywio a Hamdden: David Gilbert
- Adnoddau: Roger Jones

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Sir Gâr yw:

- Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro, Ceidwadwr
- Keith Davies, Llanelli, Llafur

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Sir Gâr yw:

- Jonathan Edwards, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro, Ceidwadwr
- Nia Griffiths, Llanelli, Llafur

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.carmartheshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yng Nghyngor Sir Gâr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Gâr

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Gâr â chyfrifoldebau adrodd yn ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau er ein bod wedi nodi gwelliannau mewn rhai meysydd**

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

2 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

3 Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol.

4 O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaetha'r pwysau ychwanegol, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

5 Er fy mod wedi rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon, fe nodom y gwelliannau canlynol:

- ar gyfer y flwyddyn nesaf mae angen i'r Cyngor wella papurau gweithio'r cyfrifon mewn rhai meysydd, ac mae angen ehangu datgelu ymrwymiadau prydlesi gweithredol a thrafodion partïon cysylltiedig; ac
- er na wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Cyngor, mae angen gwella rheolaethau o fewn yr asedau sefydlog, dyledwyr a systemau TGCh.

6 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Nid oes unrhyw faterion o bwys y dymunaf dynnu'ch sylw atynt ar hyn o bryd.

7 Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol tymor canolig sydd wedi'i datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

8 Y llynedd adroddais fod angen i'r Cyngor wella'i ddull o reoli grantiau. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn dal i fynd rhagddo, ac adroddir amdano i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gynnar yn 2012.

9 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

10 Disgwylir i ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â hynny a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Gâr

## Amcanion Gwella Cyngor Sir Gâr

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Pennodd Cynllun Gwella 2010-11 Sir Gâr saith o Amcanion Gwella iddo'u cyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor wedi pennu chwe amcan i'w cyflwyno yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r amcanion o'r llynedd ac ar gyfer eleni fel a ganlyn.

| | Blaenoriaethau Amcanion Gwella Allweddol y Cyngor ar gyfer 2010-11 |
|---|---|
| **1** | Gweithio gyda'n partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau a sicrhau arbedion; |
| **2** | Gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd a lles pobl Sir Gâr, ac yn benodol yn ystod 2010-11 canolbwyntio ar wneud cynnydd da o ran gwella ansawdd tai drwy gyflawni'r rhaglen waith ar gyfer Safon Cartrefi Sir Gâr; |
| **3** | Byddwn yn parhau i ddiogelu ein hoedolion a'n plant sy'n agored i niwed; |
| **4** | Byddwn yn cefnogi pobl hŷn i chwarae eu rhan ym mywyd ein cymunedau a'u cynorthwyo i fyw bywydau annibynnol pa bryd bynnag y bo modd yn eu cartrefi eu hunain; |
| **5** | Gweithio tuag at gyflawni sir carbon niwtral a gwella effeithlonrwydd ynni; |
| **6** | Ymateb yn gadarn i'r hinsawdd economaidd bresennol drwy gefnogi busnesau a sicrhau bod y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn cael eu hawliau cywir; |
| **7** | Moderneiddio safon adeiladau ysgol fel eu bod yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif, a bod y llety a'r cyfleusterau yn addas i'r gymuned a wasanaethir ganddynt. |

| | Blaenoriaethau Amcanion Gwella Allweddol y Cyngor ar gyfer 2011-12 |
|---|---|
| **1** | Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn iechyd a lles tenantiaid y cyngor drwy ddod â'u cartrefi i fyny i Safon Cartrefi Sir Gâr. |
| **2** | Byddwn yn darparu cymorth fel y gall pobl fyw bywydau annibynnol. |
| **3** | Byddwn yn moderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion ac yn mynd i'r afael â lleoedd dros ben mewn ysgolion drwy weithredu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| **4** | Byddwn yn lleihau defnydd y Cyngor o ynni. |
| **5** | Byddwn yn lleihau gymaint â phosibl faint o wastraff yr anfonwn i'w dirlenwi. |
| **6** | Byddwn yn cefnogi busnesau a'r economi leol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. |

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella 2011-2012, a gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn:
http://www.carmarthenshire.gov.uk/cymraeg/cyngorademocratiaeth/perfformiadycyngor/Pages/Home.aspx

## Hunanasesiad Cyngor Sir Gâr o berfformiad

Cyhoeddwyd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 erbyn 31 Hydref 2011 a gellir ei weld yn ei Adroddiad Blynyddol 2010-11 ar wefan y Cyngor yn:
http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/cyngorademocratiaeth/perfformiadycyngor/Pages/AnnualReportonOurPerformance1.aspx

# Atodiad 5
# Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor ystyried lleihau nifer ei bwyllgorau craffu er mwyn gwella effeithiolrwydd ymhellach. | Mae cynlluniau ar waith gan y Cyngor i adolygu ei gyfansoddiad cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012; bydd hyn yn cynnwys adolygiad o nifer a chylch gwaith y Pwyllgorau Craffu. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'i Asesiad parhaus o Welliant. |
| Mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno cynllun ariannol tymor canolig realistig. | Mae'r Cyngor wedi datblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ymhellach, er enghraifft mae wedi:<br>• cyflwyno seminarau i Aelodau;<br>• ymgynghori â'r Pwyllgorau Craffu ar gyllideb Gorfforaethol gyffredinol ac ar ei bortffolio ei hun o ddewisiadau arbedion;<br>• llofnodi a chadarnhau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cyngor llawn;<br>• cynnal Cynhadledd Rheolwyr trydedd Haen; ac wedi<br>• cynnal gweithdai Hyfforddiant Rheoli Craidd/Penaethiaid Gwasanaethau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'i Asesiad parhaus o Welliant. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor fynd ati i ddatblygu ymhellach ymagwedd at wella sy'n seiliedig ar ddeilliannau er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae ei brosiectau, ei gynlluniau a'i weithredoedd yn ei gael ar fywydau pobl Sir Gâr. Drwy wneud hynny gallai'r Cyngor elwa hefyd o:<br>• gyfnerthu a gwerthuso'r data gwella mae'n ei gasglu er mwyn dangos i ba raddau mae'n cyflawni deilliannau gwell;<br>• adolygu a herio'u gamau, mesurau a thargedau gwella er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â meysydd i'w gwella; a<br>• dangos yn gliriach beth yw'r cysylltiadau rhwng ei gamau allweddol a'r mesurau a'r deilliannau perfformiad y mae'n anelu'n benodol i'w cyflawni. | Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd at asesu perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau, ac wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn anodd 'oes rhywun wedi elwa' yn ei adroddiad blynyddol diweddar, gan adeiladu ar ei gysyniad cardiau adrodd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â dinasyddion drwy arolwg dinasyddion, ac mae'n hyrwyddo ymagwedd at ei gynlluniau busnes sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'i Asesiad parhaus o Welliant. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau rheoli grantiau er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo cyflawni prosiectau'n fwy cadarn ac i liniaru risg adfachu cyllid. | Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn y maes hwn gan gynnwys:<br>• adolygu a diweddaru'r Llawlyfr Grantiau Prosiectau;<br>• asesu Anghenion Hyfforddi a rhoi rhaglenni hyfforddi ar waith ar gyfer rheolwyr;<br>• darparu cymorth 1:1 ychwanegol ar gyfer rheolwyr prosiectau; ac<br>• adolygu trefniadau rheoli prosiectau corfforaethol. | Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n adolygu cynnydd ac mae'n disgwyl adrodd i'r Cyngor ar ddechrau 2012. |
| Bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yn gynharach o lawer y flwyddyn nesaf. | Cyhoeddwyd Cynllun Gwella'r Cyngor yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2011. | Dim camau pellach. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau cynllunio gwelliant er mwyn sicrhau bod cynllun clir a chyson yn cael ei gytuno a'i gyfleu i gynghorwyr, staff a'r cyhoedd; ac fel rhan o'r broses hon bydd angen i'r Cyngor:<br>• wneud yr amcanion gwella'n gliriach;<br>• cywiro'r anghysondebau rhwng y mesurau a ddefnyddiwyd yn y Cynllun a'r rhai a ddefnyddiwyd yn systemau rheoli perfformiad y Cyngor i fesur cyflawni'r amcanion gwella; a<br>• gwneud yn siwr bod y fersiwn gywir o'r Cynllun ar wefan y Cyngor. | Mae'r cynllun gwella'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni, beth mae wedi'i wneud hyd yma, pam mae hyn yn bwysig a beth fydd yn gwneud nesaf. Fodd bynnag, fe allai'r cynllun yn ddefnyddiol dynnu sylw amlycach at y gweithredoedd penodol hynny y mae'r Cyngor yn bwriadu'u gwneud yn wahanol er mwyn sicrhau gwelliant, a'r gwahaniaeth y bydd y rhain yn ei wneud i ddinasyddion lleol. Mae'r cynllun gwella yn fanwl ac yn dechnegol; fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi datblygu crynodeb byr sy'n haws o lawer i'w ddeall. Mae'r cynllun gwella a'r crynodeb wedi'u cyhoeddi o fewn y raddfa amser ofynnol, a mis yn gynharach na'r llynedd. Mae'r ddau ar gael ar ffurf electronig ar wefan y Cyngor a rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt drwy'r wasg leol, cylchlythyrau preswylwyr a hysbysiadau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaethau cwsmeriaid. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu Cynllun Gwella 2012-2013 yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad. |
| Dod â chynlluniau ymlaen i ehangu'r defnydd o ddata Adnoddau Dynol 'Insight' fel bod gan reolwyr atebol fynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen i nodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gweithlu. | Rhoddwyd ymrwymiad ym mis Tachwedd 2011 i'r Pwyllgor Craffu ar Bolisi ac Adnoddau i ddangos potensial data Adnoddau Dynol 'Insight' gydag ymrwymiad i weithredu o fis Ebrill 2012. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'i Asesiad parhaus o Welliant. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Cryfhau cynlluniau busnes a rheolaeth ariannol drwy sicrhau bod y cysylltiadau rhwng amcanion strategol a gwella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn glir, a sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch presennol drwy adolygiadau pellach a mwy sylfaenol o gyllidebau. | Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu ei Gyllideb flynyddol yn Seiliedig ar Flaenoriaeth sydd dros y pum mlynedd diwethaf wedi ailgyfeirio rhyw £10 miliwn i feysydd blaenoriaeth – yn bennaf (ond nid yn unig) i ofal cymdeithasol oedolion, ac i raddau llai i wasanaethau cymdeithasol plant. Mae'r Cyngor yn cynnwys heriau gan Gyfarwyddwyr eraill a phaneli swyddogion ac aelodau drwy graffu yn ei broses Cyllideb yn Seiliedig ar Flaenoriaeth. Caiff y gyllideb derfynol ei llofnodi a'i chadarnhau gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'i waith parhaus yn ymwneud â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad i fesur gwerth am arian a hyrwyddo meincnodi mewnol rhwng meysydd gwasanaeth allweddol er mwyn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer craffu a herio, a helpu nodi cyfle ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach. | Mae'r Cyngor yn cynllunio i ymchwilio mwy i'r maes hwn ac ymgysylltu â swyddogion o gynghorau eraill trwy Rwydwaith Gwella Cymru. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i gefnogi'r Cyngor drwy ei waith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk